www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Twristiaeth yn helpu'r rhanbarth i ymladd y dirwasgiad

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Twristiaeth yn helpu'r rhanbarth i ymladd y dirwasgiad

Mae corff twristiaeth allweddol wedi gwneud cyfraniad allweddol i economi Gogledd Cymru yn y frwydr yn erbyn y dirwasgiad.

Llwyddodd yr ymgyrchoedd marchnata a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru i gynhyrchu mwy na £19 miliwn o wariant ychwanegol gan ymwelwyr.

Mae hynny'n £1 filiwn yn fwy na'i tharged am y flwyddyn ac roedd yn gyfystyr â £19 am bob £1 a fuddsoddwyd yn eu hymgyrchoedd.

Mae'r newyddion da i'w weld yn adolygiad blynyddol y Bartneriaeth Twristiaeth am 2008-09 ar adeg pan oedd y cyni byd-eang yn taro economi'r Deyrnas Unedig yn ddifrifol.

Roedd y perfformiad yn tanlinellu pwysigrwydd twristiaeth sy'n cyfrannu cyfanswm o £1.8 biliwn i economi'r rhanbarth ac sy'n gyfystyr ag wyth y cant o gynnyrch domestig crynswth Gogledd Cymru. Mae'r diwydiant yn cyflogi dros 37,000 o bobl.

Dywedodd Rheolwr Datblygu'r Bartneriaeth Twristiaeth, Andrew Forfar, fod yr arafu economaidd wedi bod yn fendith gymysg i'r economi ymwelwyr.

Roedd y bunt wan yn golygu bod llai o bobl yn mynd ar wyliau tramor gan gryfhau'r galw am wyliau byr a gwyliau teuluol hirach yn y Deyrnas Unedig.

Profodd amryw o ymgyrchoedd seiliedig ar thema i fod yn llwyddiant mawr. Yn eu plith roedd ymgyrchoedd yn tynnu sylw at gewri diwylliant a threftadaeth y rhanbarth, ei gerddi, a map ffilmiau yn dangos lleoliadau ffilmiau a rhaglenni teledu.

Hyrwyddwyd Gogledd Cymru hefyd fel cyrchfan flaenllaw i chwaraewyr golff, rhai sy'n chwilio am antur a cherddwyr.

Meddai Mr Forfar: "Rydym yn falch iawn fod swm cymharol fach o arian wedi gallu creu elw mor fawr.

"Y gwaith a wnawn mewn partneriaeth â phobl yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yw'r allwedd i'n llwyddiant, yn enwedig y rhai hynny sydd yn y diwydiant twristiaeth.

"Dipyn o gleddyf deufin fu cyflwr yr economi oherwydd, yn ôl pob sôn, mae mwy o bobl yn aros yn y Deyrnas Unedig ar gyfer eu gwyliau eleni felly gobeithio y byddwn yn manteisio ar y sefyllfa ac yn denu mwy o bobl i Ogledd Cymru.

"Wrth symud ymlaen, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i wella'r cynnyrch. Mae disgwyliadau pobl yn llawer uwch yn awr, waeth beth maen nhw'n ei brynu, ac mae hynny'n wir am dwristiaeth hefyd – mae ymwelwyr yn chwilio am brofiad o safon.

"Mae'r diwydiant twristiaeth yng Ngogledd Cymru yn ymateb i'r disgwyliadau uwch hynny ac rydym yn gweld tystiolaeth buddsoddiad

tudalen flaenorol ◀ ▶ tudalen nesaf

sylweddol mewn atyniadau, yn ogystal â'r sector llety, wrth gwrs.

"Y diwydiant twristiaeth yw'r sbardun mwyaf yn economi Gogledd Cymru - mae'n llygedyn o obaith ar y gorwel economaidd.

"Mae twristiaeth yn un maes lle mae potensial aruthrol am dwf economaidd. Rydym wrthi'n datblygu ein strategaeth dwristiaeth newydd sy'n ceisio cryfhau ein safle yn y Deyrnas Unedig.

"Mae gennym gymaint o bethau i'w cynnig. Mae Gogledd Cymru fel microcosm oherwydd gallwch brofi llawer o wahanol bethau heb orfod teithio'n bell.

"Gallwch fod ar y traeth neu ar y mynyddoedd o fewn hanner awr. Gallwch fod yn mwynhau gweithgarwch llawn adrenalin yn Eryri, neu'n crwydro Gororau Gogledd Cymru'n hamddenol, ac mae gennym gyfoeth o ddiwylliant – neu hyd yn oed brofiad siopa ardderchog.

"Mae ein synnwyr o le unigryw yn bwysig i Ogledd Cymru. Dyna sy'n ein gwneud yn wahanol i'r rhanbarthau eraill ac mae diwylliant yn amlygu hynny'n fwy na llawer o bethau eraill.

"Mae'r deunydd crai sydd gennym o ran gwneud Gogledd Cymru'n ddeniadol yn anhygoel."

Ychwanegodd Mr Forfar fod llawer o resymau dros fod yn obeithiol ynghylch datblygiad yr economi ymwelwyr yn y dyfodol.

Yn eu plith roedd dynodi Traphont Ddŵr a Chamlas anhygoel Pontcysyllte yn Safle Treftadaeth Byd ac agor yr adeilad newydd ar gopa'r Wyddfa, Hafod Eryri.

Clwb Golff Nefyn a'r Cylch

www.tpnw.org